# JONES, SHÂN EMLYN (1936 - 1997), cantores



**Enw:** Shân Emlyn Jones
**Dyddiad geni:** 1936
**Dyddiad marw:** 1997
**Priod:** Owen Edwards
**Plentyn:** Mari Emlyn
**Plentyn:** Elin Edwards
**Rhiant:** Joanna Jones (née Owen)
**Rhiant:** Emlyn Jones
**Rhyw:** Benyw
**Galwedigaeth:** cantores
**Maes gweithgaredd:** Cerddoriaeth; Perfformio
**Awdur:** Rhidian Griffiths

Ganwyd Shân Emlyn yn Rhydychen ar 8 Chwefror 1936, yn ferch i Emlyn Jones a'i wraig Joanna (ganwyd Owen). Bu'r teulu'n byw yn Rhydychen, lle'r oedd ei thad yn glerc i Morris Motors ac yn aelod o fand y cwmni, nes dychwelyd i Gymru i fyw ar ddechrau'r Ail Ryfel Byd, i'r Felinheli yn gyntaf ac yna i Bwllheli.

Roedd ei mam yn athrawes gerdd a'i thad yn canu'r trombôn, ac o'i phlentyndod roedd Shân yn hoff iawn o ganu a pherfformio; cafodd gefnogaeth gan ei mam a'r gyfeilyddes ddawnus Maimie Noel Jones, a oedd yn gymdoges i'r teulu. Enillodd wobrau am ganu gwerin yn lleol ac yn Eisteddfodau Cenedlaethol Bae Colwyn (1947) a Phen-y-bont ar Ogwr (1948). Yn 1948 hefyd bu'n fuddugol yn Eisteddfod Gydwladol Llangollen. Fe'i clywyd yn canu gan Ceridwen Lloyd Davies, darlithydd cerddoriaeth o Fangor, a gynigiodd roi gwersi iddi, ac yn Ysgol Uwchradd Pwllheli daeth dan ddylanwad yr athro cerdd John Newman. Byddai'n canu ar raglenni radio a theledu pan oedd yn ei harddegau, ac yn bymtheg oed teithiodd i Lundain i ganu ar y teledu. Ymddangosodd yn ei gwisg Gymreig ar dudalen flaen *Y Cymro* ar 26 Chwefror, 1954, yn rhan o ddathliadau G yl Ddewi y papur.

Enillodd le yn yr Academi Gerdd Frenhinol yn Llundain, lle y cafodd hyfforddiant ar y delyn gan Gwendolen Mason. Cafodd dystysgrif LRAM a Gwobr Julie Leney am ganu'r delyn. Yn ystod ei chyfnod yn Llundain bu'n ysgrifennydd Cymdeithas Gymraeg Myfyrwyr Prifysgol Llundain a pherfformiodd gerbron y Dywysoges Alexandra. Yn 1955 cymerodd ran mewn pasiant am Ann Griffiths yn Neuadd Albert, yn rhan o gyngerdd G yl Ddewi Cymry Llundain. Recordiodd alawon gwerin ar ddwy record i Gwmni Qualiton yn 1959, a chlywir ei llais hefyd ar record Sain, Caneuon y Siroedd (1983).

Wedi priodi yn 1958 rhoddodd heibio ei dymuniad i fod yn gantores broffesiynol, ond daeth yn adnabyddus fel cantores yng Nghymru yn enwedig am ei pherfformiadau o alawon gwerin. Bu'n weithgar iawn o blaid mudiadau Cymraeg yn ninas Caerdydd, ac roedd yn un o'r rhai a sefydlodd bapur bro Caerdydd, *Y Dinesydd*, yn 1973. Bu'n Is-Gadeirydd Cymdeithas

Alawon Gwerin Cymru o 1986 hyd 1988 ac yn Gadeirydd o 1989 i 1991, a chyfrannai'n gyson i gynadleddau'r Gymdeithas. Bu hefyd yn beirniadu'n aml yn yr Eisteddfod Genedlaethol ac mewn eisteddfodau a gwyliau eraill.

O 1979 ymlaen bu'n ysgrifennydd Cymdeithas Cymry Ariannin. Cefnogodd berthynas agosach rhwng y Wladfa a Chymru a hybu ymweliadau gan Wladfawyr i'r hen wlad. Ymwelodd Shân ei hun â Phatagonia sawl gwaith, gan recordio sgyrsiau gyda'r siaradwyr Cymraeg a chofnodi alawon gwerin Cymraeg y Wladfa: diogelwyd y tapiau hyn yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Rhwng 1992 a'i marwolaeth bu'n gweithio yng Nghanolfan Hysbysrwydd Cerddoriaeth Cymru yng Nghaerdydd, ac yn ymchwilio a pharatoi rhaglenni teledu.

Ar 16 Ebrill 1958 priododd ag Owen Edwards (1933-2010), darlledwr a mab hynaf Syr Ifan ab Owen Edwards, yng nghapel Penmount, Pwllheli. Cawsant ddwy ferch, Elin a Mari. Diddymwyd y briodas yn 1994.

Dirywiodd ei hiechyd yn ei blynyddoedd olaf, a bu farw yn Ysbyty Gwynedd, Bangor ar 30 Rhagfyr 1997. Cynhaliwyd ei hangladd yng nghapel Penmount, Pwllheli, 6 Ionawr 1998, ac fe'i claddwyd ym mynwent Penrhos. Cyflwynwyd rhoddion er cof amdani i Gymdeithas Cymry Ariannin.

## Awdur

**Rhidian Griffiths**

## Ffynonellau

'Shân Emlyn', *Blodau'r Ffair* 7 (1958), tt.32-4

Meredydd Evans, 'Shân Emlyn: teyrnged', *Canu Gwerin cylchgrawn Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru* 21 (1998), tt.45-49

Meredydd Evans, 'Shân Emlyn: teyrnged', *Cerddoriaeth Cymru* 10/1, Hydref 1998, tt.6-7

Shân Emlyn, 'Caneuon gwerin Cymraeg yn y Wladfa', *Canu Gwerin cylchgrawn Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru* 5 (1982), tt.33-46

## Delweddau

Geoff Charles, The wedding of Shan Emlyn to Owen Edwards at Penmount Chapel, Pwllheli

Geoff Charles, Owen Edwards and Shan Emlyn

Geoff Charles, Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Caerfyrddin 1967

Geoff Charles, Urdd Eisteddfod proclamation ceremony at Rhyl in 1974, opened by Shan Emlyn

## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q95676928

**Dyddiad cyhoeddi:** 2020-05-20

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu